# Cofnodion

## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Hydref 2022

1 **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Seilwaith ac Asedau: 2022/19 - Mynediad Preswylwyr i Drafnidiaeth Gyhoeddus**

**Gofynnodd y Cynghorydd Howells:**

Er gwaethaf y gwelliannau diweddar i wasanaethau bws, nid oes gwasanaethau bws yn gwasanaethu Pentref Lysaght a'r ardaloedd diwydiannol cyfagos ar ddydd Sul neu ar ôl 7pm gyda'r nos. A all yr Aelod Cabinet gadarnhau y bydd yn adolygu'r ddarpariaeth hon gyda Bws Casnewydd ac yn ceisio sicrhau bod gan bob preswylydd fynediad teg i drafnidiaeth gyhoeddus?

**Ymatebodd y Cynghorydd Lacey:**

Un masnachol yw'r rhwydwaith bysus yng Nghasnewydd yn bennaf, a phrin yw'r cyfle i'r Cyngor gyfarwyddo gwasanaethau. Bu rhai gwelliannau i wasanaethau bws yn ddiweddar gan Fws Casnewydd ac mae'r rhain wedi cael eu priodoli i wasanaethu'r ardaloedd sydd â'r lefelau nawdd uchaf presennol ac o'r data fflecsi a oedd ganddynt a oedd yn dangos yr ardaloedd lle'r oedd y bysus yn cael eu defnyddio'n bennaf ar nosweithiau a phenwythnosau.

Hefyd mae nifer cyfyngedig o yrwyr bysus ar hyn o bryd i weithredu darpariaeth gwasanaethau nos a dydd Sul. Rydym yn gweithio'n agos gyda Bws Casnewydd wrth ystyried gwasanaethau a byddwn yn adolygu'r holl wasanaethau gyda Bws Casnewydd dros y misoedd nesaf i weld pa newidiadau y gallwn eu gwneud i wasanaethu ardaloedd pellach nad ydynt yn gallu eu gwasanaethu gyda'r nos a dydd Sul ar hyn o bryd.

Nid oes gennym sicrwydd o ba gyllid fydd ar gael i'r awdurdod wedi diwedd y flwyddyn ariannol hon ar gyfer ariannu gwasanaethau bysus lleol ond byddwn yn parhau i weithio gyda Bws Casnewydd i wella gwasanaethau bysus ym mhob ardal o fewn y pot arian a fydd ar gael i ni.